# *Erthygl Olygyddol – Newid Gwleidyddol, Ffocws o'r Newydd ar Ddiwygio a Chyflawni Blaenoriaethau Addysg Cymru*

Yr Athro Tom Crick, yr Athro Gary Beauchamp a'r Athro Enlli Thomas thomas.crick@swansea.ac.uk
gbeauchamp@cardiffmet.ac.uk
enlli.thomas@bangor.ac.uk

Mae'r rhifyn hwn o Gylchgrawn Addysg Cymru yn cael ei gyhoeddi unwaith eto yn ystod cyfnod o graffu sylweddol ar addysg yng Nghymru ac o gryn sylw iddi. Yn wir, ers mis Mawrth 2024 – a dyddiad cyflwyniad gwreiddiol yr erthygl olygyddol hon – mae Cymru nid yn unig wedi cael Prif Weinidog newydd (Vaughan Gething AS), ond hefyd Ysgrifennydd Cabinet newydd dros Addysg: Lynne Neagle AS, sy'n cymryd lle Jeremy Miles AS, sydd wedi cael ei symud i'r portffolio economi ac ynni ar ôl bron i dair blynedd fel Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (er y bydd yn cadw polisi'r Gymraeg). Fodd bynnag, rhwng y dyddiad cyflwyno a chyhoeddi, rydym wedi gweld Vaughan Gething AS yn ymddiswyddo, a phenodiad Eluned Morgan AS fel Prif Weinidog newydd Cymru ym mis Awst. Amser a ddengys beth fydd hyn yn ei olygu i bortffolios y cabinet – a'r broses barhaus o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Serch hynny ar ôl ateb cwestiynau gan ddisgyblion yn ystod ymweliad ag ysgol gynradd yng Nghaerdydd yn gynnar yn ystod ei chyfnod gweinidogol, cydnabu Ysgrifennydd newydd y Cabinet, sy'n un o ddim ond pedwar gwleidydd sy'n weddill yn y Senedd o'r etholiad cyntaf un 25 mlynedd yn ôl, fod nifer o heriau yn wynebu addysg yng Nghymru, gan gynnwys mynd i'r afael ag absenoldeb ac ymddygiad gwael yn ysgolion Cymru (BBC Cymru, 2024). Gan amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru yn y Senedd – sy'n dal i fod o fewn cwmpas ehangach "addysg fel cenhadaeth genedlaethol" (Llywodraeth Cymru, 2023b) – ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd system

*https://doi.org/10.16922/wje.26.1.gol*

addysg sy'n canolbwyntio'n bendant ar y plentyn a'r dysgwr, gyda ffocws ar helpu dysgwyr a staff i oresgyn effaith y pandemig COVID-19 (Addysg Cymru, 2024). Aeth ymlaen i amlinellu gwerth dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl; pwysleisio cydweithio, her a gwaith partneriaeth; recriwtio, cadw a datblygu gweithlu ysgol ymroddedig a thalentog fel blaenoriaeth; pwyslais ar addysg ôl-16, gan gydnabod y pwysau sy'n wynebu sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch Cymru ar hyn o bryd; ffocws o'r newydd ar ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a bod yn gwbl ymrwymedig i gynnydd y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024).

Fodd bynnag, bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwerthuso drwy lens feirniadol codi safonau, yn fwy fyth ar ôl i Gymru gofnodi ei sgoriau gwaethaf yn y rownd ddiweddaraf o brofion Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yr OECD (Llywodraeth Cymru, 2023a; Ymchwil y Senedd, 2023) – hyd yn oed ar ôl ystyried pryderon rhagarweiniol am effeithiau Cymraeg/Saesneg (Jerrim, 2023), a materion hysbys gydag effeithiau modd (Harrison et al., 2023). Er bod sgoriau PISA 2022 yn gipolwg terfynol cyn gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022 ymlaen, mae adroddiad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn ailadrodd yr heriau mawr sy'n wynebu addysg yng Nghymru. Cynigiodd nad yw deilliannau addysgol isel yn debygol o fod yn adlewyrchiad o dlodi uwch yng Nghymru, cymysgedd ethnig gwahanol o ddisgyblion, tuedd ystadegol na gwahaniaethau mewn adnoddau; maent yn fwy tebygol o adlewyrchu gwahaniaethau mewn polisi a dull gweithredu (Sibieta, 2024).

Fel yr amlygwyd yn ein dau rifyn blaenorol (Thomas, et al., 2023; Crick et al., 2023), ac yng nghyd-destun archwilio camau cynnar gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a diwygio addysg ar lefel system yng Nghymru (Evans, 2023), mae'r pum erthygl yn y rhifyn hwn yn mynd i'r afael ag agweddau amrywiol ar yr heriau ehangach hyn, gan ystyried darlun ehangach ar ôl y pandemig o ddysgwyr, arweinwyr a'r system yn gyffredinol (Knight et al., 2023b; Marchant et al., 2024; Hamilton et al., 2023). Ar ben hynny, mae ffocws sylweddol ar ddarpariaeth addysgol ehangach, cyflwyno'r system ADY newydd yng Nghymru, a myfyrdodau beirniadol ar addysg gynhwysol yn ehangach (Knight et al., 2022; Knight et al., 2023a).

Dechreuwn gydag erthygl gan Underwood et al. sy'n mynegi'r synergedd posibl rhwng maes amlddisgyblaethol astudiaethau plentyndod ac ieuenctid (CYS) a'r diwygiadau parhaus ar lefel system i addysg yng

Nghymru. Mae'r papur yn awgrymu bod yr egwyddorion academaidd sy'n sail i astudiaethau plentyndod ac ieuenctid, sy'n cwmpasu mewnwelediadau o gymdeithaseg, anthropoleg, seicoleg a hanes, yn allweddol wrth gyd-destunoli a gwella arferion addysgol o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r diwygiadau ehangach yng Nghymru yn pwysleisio dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n cyd-fynd â safbwynt astudiaethau plentyndod ac ieuenctid o ran cydnabod plant a phobl ifanc fel cyfranogwyr cymdeithasol gweithredol sydd â hawliau a galluedd eu hunain.

Un o gyfraniadau allweddol y papur hwn yw ei bwyslais ar yr angen i athrawon ac arweinwyr addysgol integreiddio cysyniadau astudiaethau plentyndod ac ieuenctid yn eu harferion addysgu. Drwy gau'r bwlch rhwng ymchwil ddamcaniaethol mewn astudiaethau plentyndod ac ieuenctid a methodolegau addysgu ymarferol, gall addysgwyr feithrin amgylchedd addysgol mwy cynhwysol ac effeithiol. Mae'r papur yn tynnu sylw at y ffaith bod yr integreiddio hwn nid yn unig yn cyfoethogi profiadau dysgu myfyrwyr drwy eu gwneud yn fwy perthnasol a diddorol, ond hefyd yn cyd-fynd â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru sy'n ceisio datblygu dysgwyr i fod yn unigolion uchelgeisiol, creadigol, moesegol ac iach.

Mae'r papur hefyd yn trafod pwysigrwydd addysg gychwynnol athrawon (AGA) wrth feithrin dealltwriaeth ddyfnach o astudiaethau plentyndod ac ieuenctid. Mae'n dadlau dros ddull sy'n paratoi addysgwyr y dyfodol nid yn unig o ran sgiliau addysgeg ond sydd hefyd yn rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr iddynt o'r cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol sy'n effeithio ar fywydau plant. Ystyrir bod hyn yn hanfodol er mwyn i addysgwyr gael dealltwriaeth ystyrlon o gymhlethdodau plentyndod modern, a chymhwyso eu strategaethau addysgu yn effeithiol i gefnogi datblygiad cyfannol eu myfyrwyr. Mae'r drafodaeth yn ymestyn i gymhwyso astudiaethau plentyndod ac ieuenctid yn ymarferol wrth fynd i'r afael â materion cyfoes sy'n effeithio ar blant ac ieuenctid, megis iechyd meddwl, hunaniaeth rhywedd a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r papur yn galw am bolisïau ac arferion addysgol sy'n cael eu llywio gan ymchwil gyfredol yn y meysydd hyn, gan awgrymu y dylai diwygio addysg mewn modd cynhwysfawr ystyried y ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol eang sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc heddiw.

Yn ei hanfod, mae'r papur yn argymell dull mwy cydweithredol rhwng meysydd astudiaethau plentyndod ac ieuenctid a pholisi ac ymarfer addysgol,

gan awgrymu y gallai partneriaeth o'r fath arwain at ddiwygiadau addysgol sy'n gynhwysol ac yn effeithiol. Mae'n tanlinellu potensial astudiaethau plentyndod ac ieuenctid i weithredu fel fframwaith sylfaenol ar gyfer gweithredu a datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan sicrhau bod addysg yng Nghymru yn parhau i ymateb i anghenion a hawliau plant a phobl ifanc, gan feithrin dealltwriaeth ddyfnach ac ymgysylltiad mwy effeithiol â realiti cymhleth bywydau plant yng Nghymru.

Mae ein hail erthygl gan Pegram et al. yn ymchwilio i brosesau penderfynu cymhleth arweinwyr ysgolion yng Nghymru wrth ddewis a gweithredu rhaglenni addysgol. Mae'r ymchwil hon, a gynhaliwyd trwy gyfweliadau gydag arweinwyr amrywiaeth o ysgolion, yn ceisio deall y dylanwadau amrywiol sy'n llywio'r penderfyniadau hyn, yn enwedig yng nghyd-destun mabwysiadu dulliau addysgu ar sail ymchwil a thystiolaeth. Un o brif ganfyddiadau'r astudiaeth yw, er bod cryn bwyslais o du polisïau a mentrau addysgol cyfredol yng Nghymru – ac yn wir, ar draws y DU – ar ddulliau addysgu ar sail tystiolaeth, mae'r penderfyniadau gwirioneddol gan arweinwyr ysgolion yn aml yn dibynnu mwy ar brofiadau personol a cholegol yn hytrach nag ar ymchwil empirig. Mae hyn yn tynnu sylw at fwlch rhwng bwriad polisïau a realiti ymarfer addysgol. Mae'r astudiaeth yn archwilio'r gwahaniaeth hwn drwy archwilio sut mae arweinwyr mewn lleoliadau addysgol yn gwneud dewisiadau ynghylch pa raglenni addysgu i'w gweithredu, gan bwysleisio natur amlweddog y penderfyniadau hyn sy'n cynnwys ystyriaethau am ymarferoldeb, cynefindra a dylanwad cyfoedion.

Mae'r astudiaeth yn dangos mai anaml y gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar argaeledd a hygyrchedd tystiolaeth ymchwil drylwyr a chadarn yn unig. Yn hytrach, mae arweinwyr ysgolion yn aml yn tynnu ar eu profiadau eu hunain, profiadau eu cydweithwyr a'r diwylliant sefydliadol ac amgylcheddol ehangach. Mae'r orddibyniaeth bosibl hon ar wybodaeth seiliedig ar brofiad a chyd-destun ar draul data empirig yn awgrymu bod angen dull mwy integredig o hyrwyddo arferion ar sail tystiolaeth mewn ysgolion. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu rhyngbersonol a rhwng ysgolion, lle mae profiadau eraill mewn lleoliadau addysgol tebyg yn gwneud cyfraniad hollbwysig at lunio penderfyniadau arweinwyr. Yn ogystal, canfu'r astudiaeth fod datblygiad proffesiynol nad yw'n seiliedig ar ymchwil yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddylanwadu ar arferion addysgol, gan gymhlethu ymhellach yr ymgyrch tuag at ddulliau ar sail tystiolaeth. Mae hyn yn dangos elfen ddiwylliannol gref mewn prosesau penderfynu addysgol, lle mae lledaenu arloesiadau yn cael

ei gyfryngu gan rwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol yn hytrach na'i sbarduno'n bennaf gan ymchwil a thystiolaeth.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod realiti ymarferol gweithredu dulliau addysgu newydd, megis yr adnoddau sydd eu hangen a chydnawsedd dull newydd ag arferion presennol, yn ffactorau hanfodol wrth wneud penderfyniadau. Mae'r ymarferoldeb hwn yn aml yn gorbwyso manteision damcaniaethol neu fanteision pendant dulliau addysgol newydd, gan bwysleisio'r angen i arferion ar sail tystiolaeth fod nid yn unig yn gadarn yn ddamcaniaethol ond yn ymarferol i'w gweithredu hefyd. Felly, mae'r astudiaeth yn galw am ddull mwy cynnil o hyrwyddo arferion addysgu ar sail tystiolaeth; mae'n awgrymu, er bod ymchwil a thystiolaeth yn hollbwysig, fod deall y cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol y mae arweinwyr ysgolion yn gweithredu ynddynt yr un mor bwysig. Mae'r astudiaeth yn dadlau o blaid polisïau ac arferion sy'n parchu'r cyd-destunau hyn ac yn gweithio ar y cyd ag addysgwyr i integreiddio ymchwil mewn ymarfer yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys darparu tystiolaeth i arweinwyr ysgolion sydd nid yn unig yn drylwyr ac yn gadarn, ond hefyd yn hygyrch, yn berthnasol ac yn ymatebol i'w cyd-destunau a'u hamgylcheddau addysgol penodol.

Mae'r trydydd papur yn y rhifyn hwn gan Bridgeman yn cynnig archwiliad manwl i weithrediad a heriau darpariaeth amgen y tu allan i addysg brif ffrwd. Mae'r gwaith yma'n rhan o brosiect mwy a ariennir gan ESRC sy'n ymchwilio i economïau gwleidyddol gwaharddiadau ysgol yn y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflwyno ac effeithiolrwydd darpariaeth amgen yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn nodi bod darpariaeth amgen yn llwybr addysgol hanfodol i bobl ifanc nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn addysg brif ffrwd am amryw resymau megis gwaharddiad, salwch, problemau ymddygiad neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r astudiaeth wedi'i strwythuro o amgylch archwilio dibenion, deilliannau a heriau gweithredol darpariaeth amgen drwy gyfweliadau â deg darparwr amgen ar draws dau awdurdod lleol yng Nghymru.

Un o gyfraniadau allweddol y papur hwn yw'r ffaith ei fod yn nodi'r gwahanol ffocysau ymhlith darparwyr darpariaeth amgen: mae darparwyr addysgol a galwedigaethol yn canolbwyntio ar gymwysterau a phontio i addysg bellach neu gyflogaeth, tra bod darparwyr therapiwtig, chwaraeon a'r celfyddydau yn pwysleisio meithrin ymddiriedaeth, cysylltiadau a sgiliau bywyd. Mae hyn yn tynnu sylw at y strategaethau amrywiol a ddefnyddir i ailgysylltu pobl

ifanc ag addysg, wedi'u teilwra i'w hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Felly, mae'r ymchwil yn tanlinellu mater hollbwysig ym maes darpariaeth amgen: anhawster mesur llwyddiant a deilliannau hirdymor rhaglenni ac ymyriadau. Nid oes gan lawer o ddarparwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hintegreiddio mewn ysgolion, fynediad at ddigon o ddata i olrhain cynnydd myfyrwyr ar ôl cwblhau rhaglen. Mae'r her hon yn cael ei chymhlethu gan dirwedd dameidiog darpariaeth amgen gyda diffyg fframweithiau safonedig ar gyfer gwerthuso, gan ei gwneud hi'n anodd pennu effeithiolrwydd a chyfiawnhau cyllid tymor hwy ar gyfer y rhaglenni hyn. Mae'r astudiaeth yn dangos sut mae darparwyr, yn enwedig yn y trydydd sector, yn ei chael hi'n anodd sicrhau cyllid digonol i dalu costau hanfodol rhaglenni. Mae'r diffyg ariannol hwn yn aml yn arwain at ddibyniaeth ar ffrydiau ariannol dros dro neu ansicr, a all effeithio ar gynaliadwyedd ac ansawdd y darpariaethau a gynigir.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn werthfawr i lunwyr polisi ac arweinwyr addysgol gan eu bod yn rhoi cipolwg ar realiti gweithredol darpariaeth amgen. Mae'n tynnu sylw at yr angen am fframwaith polisi cydlynol sy'n cefnogi arferion gwerthuso safonol a mecanweithiau ariannu cadarn i sicrhau bod darpariaeth amgen yn gynaliadwy ac yn effeithiol. Mae'n cynnig mewnwelediad amserol ar gyfer nodi a mireinio strategaethau addysgol i gefnogi pobl ifanc agored i niwed yn well a gwella eu deilliannau addysgol. Felly, mae'r papur hwn yn cyfrannu at ddealltwriaeth o ddarpariaethau addysgol amgen, gan dynnu sylw at gymhlethdodau cyflwyno profiadau addysgol wedi'u teilwra y tu allan i leoliadau prif ffrwd. Mae'n galw am ddull mwy integredig o gefnogi ac ariannu'r gwasanaethau hanfodol hyn, gan sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cyfle i lwyddo yn ei deithiau addysgol, waeth beth fo'i amgylchiadau personol.

Mae'r papur nesaf gan Marsh a Jeans yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r fframwaith statudol newydd sydd wedi'i sefydlu i gefnogi unigolion 0–25 oed yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cyflwynodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ddull trawsnewidiol o ymdrin ag addysg arbennig yng Nghymru, gan symud o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) i Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) mwy cyfannol. Bwriad y newid polisi mawr hwn yw cynnig cymorth addysgol mwy cynhwysol a phersonol ar draws demograffig ehangach. Mae'r papur yn canolbwyntio ar sefydlu gwaelodlin feintiol ar gyfer gwerthuso'r

system newydd hon yn y dyfodol, gan ddefnyddio ystadegau Llywodraeth Cymru rhwng 2010 a 2023.

Mae canfyddiadau allweddol yr ymchwil yn dangos amrywiadau sylweddol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, yn enwedig mewn gwariant wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaethau AAA/ADY. Mae'r dadansoddiadau ariannol hyn yn hanfodol gan eu bod yn tynnu sylw at yr her barhaus o gynnal cynaliadwyedd mewn cyllid yng nghanol diwygiadau addysgol mawr, yn ogystal â'r pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu llywodraeth leol. Mae'r papur yn categoreiddio awdurdodau lleol yn dri chlwstwr yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), gan ddarparu dealltwriaeth fanwl o sut y gallai ffactorau economaidd-gymdeithasol ddylanwadu ar weithrediad a llwyddiant strategaethau ADY yn y dyfodol agos.

Mae'r dulliau ymchwil yn cynnwys archwiliad manwl o ddata ar gyffredinrwydd ADY, lefelau cyllid ac apeliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r dull hwn nid yn unig yn meincnodi amodau presennol ond hefyd yn gosod cynsail ar gyfer craffu ac adolygu parhaus sy'n angenrheidiol i sicrhau tegwch a chysondeb wrth weithredu'r Ddeddf dros y blynyddoedd i ddod. Ar ben hynny, mae'r papur yn trafod goblygiadau ehangach y canfyddiadau hyn, yn enwedig yr angen am ddiweddariadau ac adolygiadau rheolaidd o'r ddeddfwriaeth i addasu i heriau sy'n dod i'r amlwg ac i sicrhau mynediad teg at adnoddau ar draws gwahanol ranbarthau. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd dull systematig, ar sail tystiolaeth o lunio polisïau mewn addysg, lle gall penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ddata helpu i liniaru gwahaniaethau a gwella'r deilliannau addysgol i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ymdrechion parhaus i fireinio a gwella'r system sy'n cael ei chyflwyno o dan y Ddeddf, yn enwedig o ystyried y pwysau ariannol ehangach ar lywodraeth leol, yn hanfodol ar gyfer ei llwyddiant a'i chynaliadwyedd. Felly, mae'r papur hwn yn tanlinellu pwysigrwydd integreiddio adolygiadau ystadegol cadarn yn y broses o lunio polisi, ac yn arbennig ar gyfer AAA/ADY, gwneud yr ymchwil hon yn adnodd amserol a gwerthfawr i randdeiliaid sy'n ceisio meithrin amgylchedd addysgol cynhwysol ac effeithiol yng Nghymru.

Mae'r papur olaf ar gyfer y rhifyn hwn gan Olive et al. yn darparu archwiliad o'r testunau llenyddol a addysgir mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru, gan dynnu sylw at y diffyg amrywiaeth o ran rhywedd a chefndir ethnig awduron. Mae'r astudiaeth yn arbennig o amserol a

pherthnasol wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a'i ffocws ar ddull addysgol mwy cynhwysol ac amrywiol. Yn seiliedig ar arolwg o 47 o athrawon ledled Cymru, mae'r gwaith hwn yn datgelu bod awduron benywaidd ac awduron o liw yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol ar draws y llenyddiaeth a addysgir, sy'n cynnwys llenyddiaeth Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg a Sbaeneg. Gwelir y diffyg amrywiaeth hwn yn y testunau a ddewisir ar gyfer barddoniaeth, drama a rhyddiaith, gan effeithio o bosibl ar uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 a'i nodau i addysgu hanesion a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (BAME) yn fwy ystyrlon.

Yn arwyddocaol, canfu'r astudiaeth, er bod awduron benywaidd yn cael eu cynrychioli ychydig yn well mewn astudiaethau llenyddiaeth Gymraeg o gymharu â'r Saesneg, ychydig iawn o awduron o liw a welir. Yn benodol, dim ond ymhlith testunau Saesneg a Ffrangeg y ceir yr awduron hyn, heb unrhyw gynrychiolaeth mewn llenyddiaeth Gymraeg. Mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu mater ehangach yn y sector addysgol lle nad yw'r cwricwlwm yn adlewyrchu'n llawn gyfansoddiad cymdeithasol a diwylliannol amrywiol Cymru, sy'n golygu nad yw'n cyflawni ei botensial fel offeryn ar gyfer newid cymdeithasol a chynwysoldeb.

Mae'r ymchwil hefyd yn trafod y materion systemig sy'n sail i'r dewisiadau hyn, gan gynnwys y cyfyngiadau a osodir gan fyrddau arholi sy'n tueddu i osod y dewis o destunau sydd ar gael i'w hastudio. Mae hyn yn cael effaith raeadru ar amrywiaeth y llenyddiaeth y gall athrawon ei chyflwyno i fyfyrwyr, gan eu cyfyngu yn aml i ystod gul o awduron a themâu. Mae'r ffactorau allanol hyn, yn ogystal â phrofiadau personol a chyfunol athrawon a'r adnoddau addysgu sydd ar gael, yn dylanwadu'n drwm ar y broses o benderfynu pa destunau i'w haddysgu. Felly, mae'r papur yn gwneud sawl argymhelliad i fynd i'r afael â'r materion hyn; mae'n galw am hyfforddiant mwy cadarn i athrawon, gwell adnoddau, a dyluniad cwricwlwm sy'n mynd ati i ymgorffori ystod amrywiol o leisiau llenyddol. Mae'r camau hyn yn hanfodol i sicrhau bod y llenyddiaeth a addysgir yn fwy cydnaws â nodau'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n pwysleisio creu dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n gallu gwerthfawrogi a deall safbwyntiau amrywiol.

At ei gilydd, mae'r papur hwn yn tynnu sylw at fwlch difrifol yn y llenyddiaeth addysgol a gynigir yng Nghymru ac yn darparu sylfaen ar gyfer ymchwil a llunio polisïau yn y dyfodol sydd â'r nod o gyfoethogi profiadau llenyddol myfyrwyr i adlewyrchu safbwyntiau byd-eang ac amlddiwylliannol yn well. Mae'r gwaith hwn yn annog ailwerthusiad o'r

ffordd y caiff llenyddiaeth ei haddysgu, gan ddadlau o blaid system sydd nid yn unig yn addysgu, ond sydd hefyd yn grymuso myfyrwyr drwy adlewyrchu eu cefndiroedd amrywiol yn y testunau y maent yn eu hastudio.

Gyda'i gilydd, mae'r pum papur hyn yn rhoi mewnwelediad amserol a gwerthfawr ar draws sectorau, rhanddeiliaid a meysydd ymholi amrywiol, gan dystio i'r cyfoeth o ymchwil sydd ar y gweill yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn wir, dyma nod ehangach y cylchgrawn (Beauchamp et al., 2022); gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r papurau yn y rhifyn presennol. Hoffem hefyd dynnu sylw at rifyn arbennig pwysig o'r cylchgrawn sydd i'w gyhoeddi yn ail hanner 2024 i nodi 25 mlynedd ers datganoli polisi addysg i Gymru. Ffocws y rhifyn arbennig fydd olrhain, dadansoddi a gwerthuso effaith chwarter canrif o lunio polisi ac ymarfer addysgol ers datganoli mewn ystod o feysydd allweddol yn y sector addysg yng Nghymru. Yn ôl yr arfer, cysylltwch â'r golygyddion os hoffech drafod eich gwaith presennol, cyflwyno i Janeway (ein system gyflwyno ar-lein) yn Gymraeg neu Saesneg, neu gael eich cyhoeddi ym mhrif *Gylchgrawn Addysg Cymru* neu yn ein maes *Ffocws ar Ymarfer* sy'n datblygu.

I gloi, mae'n anhygoel myfyrio ar effaith ehangach – ac effaith sy'n esblygu'n gyflym – deallusrwydd artiffisial (AI) ar addysg, ac yn enwedig ymddangosiad tirwedd amrywiol o offer a thechnolegau AI a'u heffaith bosibl ar ddysgu, addysgu ac asesu (Chen et al., 2020; Dwivedi et al., 2021; Schiff, 2022). Yn wir, mae hyn yn ffocws allweddol i brosiect Wales Collaborative for Learning Design (WCLD), a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn ystod y pandemig COVID-19. O ystyried y sylw mawr a roddir i AI gynhyrchiol a modelau iaith mawr fel ChatGPT (Dwivedi et al., 2023; Yr Adran Addysg, 2023), byddem yn croesawu cyflwyniadau sy'n gwerthuso'n feirniadol y datblygiadau hyn mewn cyd-destun Cymreig neu gyd-destun cysylltiedig (Williamson et al., 2024), yn enwedig o ystyried amlygrwydd hirsefydlog cymhwysedd digidol ac addysg gyfrifiadureg (Arthur et al., 2013; Crick, 2021; Sentence et al., 2022) fel rhan o ddiwygiadau a datblygiadau polisi ehangach.

## Cyfeiriadau

Adran Addysg San Steffan (2023). Generative artificial intelligence (AI) in education. Llywodraeth y DU. https://www.gov.uk/government/publications/

generative-artificial-intelligence-in-education/generative-artificial-intelligence-ai-in-education (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Addysg Cymru (2024). Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Addysg – llythyr gan Lynne Neagle. https://addysgcymru.blog.llyw.cymru/2024/04/08/ysgrifennydd-newydd-y-cabinet-dros-addysg-letter-from-lynne-neagle/ (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Arthur, S., Crick, T., a Hayward, J. (2013). Adroddiad y Grwˆp Llywio TGCh i LywodraethCymru.https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfrifiadureg-thechnoleg-gwybodaeth-mewn-ysgolion-adroddiad-y-grwp-llywio-tgch (cyrchwyd 14 Mai 2024)

BBC Wales (2024). What are new education minister's priorities? https://www.bbc.co.uk/news/articles/cn0vnqxke3wo (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Beauchamp, G., Thomas, E., a Crick, T. (2022). Education research *in* Wales, *from* Wales, and *for* Wales. *Wales Journal of Education*, 24(2). https://doi.org/10.16922/wje.24.2.1

Chen, L., Chen, .P., a Lin, Z. (2020). Artificial Intelligence in Education: A Review. *IEEE Access*, 8, 75264–78. https://doi.org/10.1109/access.2020.2988510

Crick, T. (2021). An Overview of the New Science & Technology Curriculum for Wales. Yn: Proceedings of 26th Annual Conference on Innovation and Technology in Computer Science Education (ITiCSE'21). ACM. https://doi.org/10.1145/3456565.3460052

Crick, T., Thomas, E., a Beauchamp, G. (2023). Editorial – Conceptualising Education in Wales Through Reform, Identity, Language and History. *Wales Journal of Education*, 25(1). https://doi.org/10.16922/wje.25.1.1

Dwivedi, Y.K. et al. (2021). Artificial Intelligence (AI): Multidisciplinary perspectives on emerging challenges, opportunities, and agenda for research, practice and policy. *International Journal of Information Management,* 57, 101994. https://doi.org/10.1016/j.ijinfomgt.2019.08.002

Dwivedi, Y.K. et al. (2023). "So what if ChatGPT wrote it?" Multidisciplinary perspectives on opportunities, challenges and implications of generative conversational AI for research, practice and policy. *International Journal of Information Management,* 71, 102642. https://doi.org/10.1016/j.ijinfomgt.2023.102642

Evans, G. (2023). A new dawn or false hope? Exploring the early implementation of Curriculum for Wales. *Education Inquiry*. https://doi.org/10.1080/20004508.2023.2297506

Hamilton, L., Beauchamp, G., Hulme, M., Harvey, J. A., a Clarke, L. (2023). Challenges for school leadership and management in the four nations of the United Kingdom during the pandemic: conceptual shifts and implications for future thinking. Yn: *Research Handbook on Public Leadership*, 80–96. Edward Elgar Publishing. https://doi.org/10.4337/9781786439673.00012

Harrison, S., Kroehne, U., Goldhammer, F., Lüdtke, O., a Robitzsch, A. (2023). Comparing the score interpretation across modes in PISA: an investigation of

how item facets affect difficulty. *Large-Scale Assessments in Education*, 11(8). https://doi.org/10.1186/s40536-023-00157-9

Jerrim, J. (2023). Were PISA reading scores in Wales as bad as they first seemed? FFT Education Datalab. https://ffteducationdatalab.org.uk/2023/12/were-pisa-reading-scores-in-wales-as-bad-as-they-first-seemed/ (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Knight, C., Clegg, Z., Conn, C., Hutt, M., a Crick, T. (2022). Aspiring to include versus implicit "othering": Teachers' perceptions of inclusive education in Wales. *British Journal of Special Education*, 49(1), 6–23. https://doi.org/10.1111/1467- 8578.12394

Knight, C., Conn, C., Crick, T., a Brooks, S. (2023a). Divergences in the Framing of Inclusive Education across the UK: A Four Nations Critical Policy Analysis. *Educational Review*. https://doi.org/10.1080/00131911.2023.2222235

Knight, C., Tyrie, J., Crick, T., a Borras Batalla, M. (2023b). A Delphi Study to identify strategies to mitigate the adverse impact of COVID-19 on children under the age of five in Wales. *Wales Journal of Education*, 25(2). https://doi.org/10.16922/wje.25.2.2

Llywodraeth Cymru (2023a). Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) PISA adroddiad cenedlaethol: 2022. https://www.llyw.cymru/cyflawniad-disgyblion-15-mlwydd-oed-rhaglen-ryngwladol-asesu-myfyrwyr-pisa-adroddiad-cenedlaethol-2022 (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru (2023b). Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb. https://www.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb-html (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Llywodraeth Cymru (2024). Datganiad Llafar: Ein Cenhadaeth Genedlaethol: cyflawni blaenoriaethau addysg Cymru. https://www.llyw.cymru/datganiad-llafar-ein-cenhadaeth-genedlaethol-cyflawni-blaenoriaethau-addysg-cymru (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Marchant, E., Dowd, J., Bray, L., Rowlands, G., Miles, N., Crick, T., James, M., Dadaczynski, K., ac Okan, O. (2024). The well-being and work-related stress of senior school leaders in Wales and Northern Ireland during COVID-19 "educational leadership crisis": A cross-sectional descriptive study. *PLOS ONE*, 19(4), e0291278. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0291278

Sentance, S., Kirby, D.., Quille, K., Cole, E., Crick, T., a Looker, N. (2022). Computing in School in the UK & Ireland: A Comparative Study. Yn: Proceedings of UK and Ireland Computing Education Research Conference (UKICER'22). ACM. https://doi.org/10.1145/3555009.3555015

Schiff, D. (2022). Education for AI, *not* AI for Education: The Role of Education and Ethics in National AI Policy Strategies. *International Journal of Artificial Intelligence in Education*, 32, 527–63. https://doi.org/10.1007/s40593-021-00270-2

Sibieta, L. (2024). Major challenges for education in Wales. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. IFS Report R303. https://ifs.org.uk/publications/major-challenges-education-wales (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Thomas, E., Crick, T., a Beauchamp, G. (2023). Editorial – Envisioning the Post-COVID "New Normal" for Education in Wales. *Wales Journal of Education*, 25(2). https://doi.org/10.16922/wje.25.2.1

Williamson, B., Molnar, A., a Boninger, F. (2024). Time for a pause: Without effective public oversight, AI in schools will do more harm than good. National Education Policy Center, USA. http://nepc.colorado.edu/publication/ai (cyrchwyd 14 Mai 2024)

Ymchwil y Senedd (2023). Sut wnaeth Cymru berfformio yn PISA 2022? https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/sut-wnaeth-cymru-berfformio-yn-pisa-2022/ (cyrchwyd 14 Mai 2024)